Grŵp Sefydliadol Cymru (WIG)

Aelodaeth WIG a Chylch Gorchwyl

Amlinellir aelodaeth a chylch gorchwyl y WIG isod.

1. Pwrpas

Pwrpas Grŵp Sefydliadol Cymru (WIG) yw hysbysu cyfeiriad strategol a datblygu dulliau ymdrîn gwaith yr Academi Addysg Uwch (HEA) yng Nghymru. Byddai'n fforwm hefyd o gefnogaeth cyfoedion ar gyfer sefydliadau sy'n darparu AU yng Nghymru i wella dysgu, addysgu a'r profiad myfyrwyr. Bydd prif fyrdwn y gweithgareddau yn perthyn i wella academaidd. Nid tasg y WIG, nag unrhyw un o'i is-grwpiau, yw ymddwyn fel grŵp lobïo.

2. Amcanion

Mae amcanion y WIG fel a ganlyn:

Bydd y WIG yn:

- Darparu fforwm ar gyfer rhannu ymarfer da a mentrau effeithiol;
- Nodi cyfleoedd ar gyfer archwilio cydweithredu posib o ran ymchwil neu brosiectau datblygu i ddatrys heriau dysgu ac addysgu a nodwyd yn strategol;
- Darparu fforwm ar gyfer cefnogaeth cyfoedion yn nhermau profiadau cydweithwyr o'u rôl mewn sefydliadau;
- Mynd i'r afael â'r mater penodol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg / dwyieithog mewn cysylltiad ag asiantaethau sector allweddol eraill.
- Ymddwyn fel rhwydwaith ar gyfer y sector yng Nghymru.
- Ymddwyn fel fforwm ar gyfer trafod materion sy'n perthyn i ddysgu ac addysgu ar gyfer sefydliadau sydd yn darparu AU yng Nghymru, i gynnwys:
    - rhannu ymarfer da;
    - gwerthuso ymarfer da;
    - datblygu gweithdai, cynadleddau a.a. yn ôl beth sy'n briodol i gwrdd ag anghenion y grŵp, gan weithio ar y cyd â'r HEA;
    - materion y mae'r sector yng Nghymru eisiau dod at sylw'r HEA i'w hystyried.
- Hwyluso cyfathrebiadau HEA / sefydliadol yng Nghymru;
- Darparu mecanwaith sydd yn galluogi'r sector AU yng Nghymru i arwain a hysbysu gwaith yr HEA yng Nghymru ar lefel strategol a gweithredol;
- Codi materion i'w defnyddio ar gyfer helpu hysbysu prosesau cynllunio'r HEA;
- Cynghori'r HEA ar faterion a blaenoriaethau penodol i sefydliadau sy'n darparu AU yng Nghymru;
- Cynghori'r HEA ar ddatblygu polisi;
- Derbyn, ystyried ac ymateb i faterion y mae'r HEA yn cyfeirio at y WIG;
- Derbyn gwybodaeth gan Gydgysylltydd Cenedlaethol yr HEA ac ymddwyn fel corff dosbarthu.

3. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y grŵp yn cynnwys:

- Cydgysylltydd Cenedlaethol Cymru yr HEA a fydd yn cadeirio'r grŵp;

- Un uwch aelod sy'n gyfrifol am ddysgu ac addysgu (e.e. Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu ac Addysgu, Pennaeth Datblygu Addysgol, Pennaeth Dysgu ac Addysgu) o bob sefydliad yng Nghymru sydd yn tanysgrifio i'r HEA – fel arfer pwynt cyswllt sefydliadol enwebedig yr HEA, neu eu cynrychiolydd;
- Aelodau wedi eu cyfethol yn unol â phenderfyniad y grŵp ar sail ad-hoc (er enghraifft, cydweithwyr sy'n gyfrifol am feysydd pwnc a thema o'r HEA) yn ôl yr agenda.

Bydd Swyddog Datblygu Academaidd (Cymru) yr HEA yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddol i'r grŵp.

4. Adrodd

Bydd yr Ysgrifennydd yn cynhyrchu crynodeb prydlon o gofnodion o bob cyfarfod.

Bydd Cadeirydd y WIG yn adrodd yn ôl i'r Gyfarwyddiaeth berthnasol yn yr HEA.

Bydd aelodau'r WIG yn adrodd yn ôl i'w sefydliadau ar weithgareddau'r grŵp, lle bo'n briodol.

5. Cyfathrebu

Bydd y WIG yn cyfathrebu gweithgareddau perthnasol i grwpiau sector, mudiadau a sefydliadau drwy ebost. Bydd y cyfathrebiadau hyn ar sail ad-hoc.

6. Amlder cyfarfodydd

Bydd y WIG yn cyfarfod o leiaf dair gwaith bob blwyddyn academaidd. Ble y caiff is-grwpiau eu creu, bydd y prif WIG yn penderfynu ar amlder cyfarfodydd a threfniadau adrodd.

Gall yr Ysgrifennydd wneud defnydd o gyfathrebu electronig i hwyluso rhannu gwybodaeth ymysg aelodau'r WIG rhwng y cyfarfodydd ffurfiol.

7. Amrywiol

Bydd y WIG yn penderfynu ar leoliadau'r cyfarfodydd. Bydd y rhain fel arfer yn cael eu cynnal mewn sefydliadau ar sail gylchynol.

I sicrhau atebolrywdd, bydd y WIG yn cynhyrchu adroddiad blynyddol, i'w ddrafftio gan y Cadeirydd, i'r HEA a sefydliadau sydd yn cymryd rhan.

Bydd cylch gorchwyl y WIG yn cael eu hadolygu gan aelodau'r WIG yn flynyddol.

8. Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch os gwelwch yn dda â Helena Lim (helena.lim@heacademy.ac.uk), Cydgysylltydd Cenedlaethol yr HEA yng Nghymru.

Aelodaeth Setiau Gweithredu neu Is-Grwpiau'r WIG a'r Cylch Gorchwyl

1. Aelodaeth

Bydd aelodaeth Setiau Gweithredu neu Is-Grwpiau yn cynnwys:

- Un (neu fwy) a aelodau o'r WIG i ymddwyn fel 'arweinydd' i'r grŵp;
- Swyddog Datblygu Academaidd i Gymru yr Academi Addysg Uwch yng Nghymru i ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol ar gyfer cyfarfodydd;
- Un cynrychiolydd o bob sefydliad sy'n darparu AU yng Nghymru;
- Cynrychiolwyr asiantaethau sector allweddol lle bo'n briodol.
- Aelodau wedi eu cyfethol yn unol â phenderfyniad y grŵp ar sail ad-hoc, yn ôl gwaith y grŵp.

2. Pwrpas

Diffinir pwrpas, nodau ac amcanion Setiau Gweithredu ac Is-Grwpiau'r WIG yn fanwl gan y WIG cyn i unrhyw waith gychwyn. Bydd prif fyrdwn y gwaith yn perthyn i wella academaidd. Nid tasg y grwpiau hyn yw lobïo.

3. Cylch gorchwyl

Bydd y Setiau Gweithredu neu Is-Grwpiau yn:

- Darparu fforwm ar gyfer rhannu ymarfer da a mentrau;
- Darparu fforwm ar gyfer cefnogaeth cyfoedion yn nhermau profiadau cydweithwyr o'u rôl yn eu sefydliadau;
- Nodi cyfleoedd ar gyfer archwilio cydweithredu posib o ran ymchwil neu brosiectau datblygu sy'n perthyn i nodau'r grŵp;
- Ymddwyn fel fforwm ar gyfer trafod materion sy'n perthyn i gylch gwaith y grŵp;
- Cynghori'r WIG ar faterion a blaenoriaethau sydd yn benodol berthnasol i gylch gwaith y grŵp.

4. Adrodd

Bydd y Setiau Gweithredu neu Is-Grwpiau yn adrodd yn ôl i'r WIG – diweddaru ar lafar yng Nghyfarfodydd WIG, a diweddariad ysgrifenedig cryno blynyddol. Bydd aelodau'r grŵp yn adrodd yn ôl i'w sefydliadau eu hunain ar y gwaith a gyflawnir.

5. Cyfathrebu

Bydd y Setiau Gweithredu neu Is-Grwpiau yn cyfathrebu'r gweithgareddau sy'n berthnasol i grwpiau sector, mudiadau a sefydliadau drwy'r dulliau priodol.

6. Amlder cyfarfodydd

Bydd y Setiau Gweithredu neu Is-Grwpiau yn cyfarfod o leiaf dair gwaith bob blwyddyn academaidd.

7. Amrywiol

Bydd y Setiau Gweithredu neu Is-Grwpiau yn penderfynu ar leoliadau'r cyfarfodydd, i'w cynnal naill ai mewn sefydliadau, neu fel rhith-gyfarfodydd.

Bydd yr HEA yn darparu cefnogaeth weinyddol a chlerigol i wasanaethu'r setiau a'r grwpiau.

I sicrhau atebolrwydd, bydd Set Gweithredu neu Is-Grŵp yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'w ddrafftio gan arweinydd y grŵp.

8. Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch os gwelwch yn dda â Helena Lim (helena.lim@heacademy.ac.uk), Cydgysylltydd Cenedlaethol yr HEA yng Nghymru.